# Celf yn y Gegin
# Collage Pecynnau Bwyd gydag Emma Jones

Bydd angen i chi gael :
Siswrn / glud / pecynnau bwyd / delwedd – llungopi neu allbrint o lun, neu gallech ddefnyddio delweddau o gylchgronau neu hen gardiau post neu unrhyw ddelwedd a fyddai'n ganolbwynt gwych.

Rydw i wedi gwneud cryn dipyn o'r rhain a byddwn yn cynghori defnyddio delwedd du a gwyn er mwyn cyferbynnu â'r holl liwiau. Dyna fy marn i – ond eich darn chi o gelf yw hwn. Rwy'n arbennig o hoff o weithio gyda llungopïau o hen luniau o fy nheulu. Does dim rhaid i chi ddefnyddio delwedd hyd yn oed! Eich darn chi o gelf yw hwn. Efallai yr hoffech chi dorri darnau fel mosaig i wneud eich darn. Rydw i eisiau i chi fynd ar goll yn y broses a chael hwyl.



Mae angen i ni gael gwaelod i weithio arno, felly torrwch flwch grawnfwyd etc. i ba bynnag faint rydych chi eisiau gweithio arno. Fe wnes i dorri 18.5cm x22.5cm.



Cyn i chi ailgylchu eich pecynnau, edrychwch - a oes rhannau y gallech chi eu cadw os ydych yn hoffi'r patrwm, teipograffeg, lliw? Wrth i chi gasglu eich cardbord, neu'n chwilota o amgylch y gegin, mwynhewch edrych arnyn nhw o safbwynt gwahanol. Rydw i wrth fy modd â theipograffeg Kellogg a'r lliwiau gwrthgyferbyniol sy'n cael eu defnyddio. Beth rydych chi'n ei hoffi?



Does dim rheolau!



Felly mwynhewch torri siapiau, trefnu darnau.

Ar gyfer y darn hwn, fe ddes i o hyd i bapur lapio Nadolig oedd yn sbâr ac ychydig o bapur patrymog ac ychydig o ffoil wy Pasg. Pan fyddwch chi'n hapus gyda'ch trefniant, gludwch eich darnau.



Felly yn y fideo, dyma sut olwg oedd ar y ddelwedd ond ro'n i eisiau parhau i chwarae gyda'r canlyniad. Dydw i ddim fel arfer yn gwneud celf tra'n cael fy ffilmio. Mae'n well gen i fod ar fy mhen fy hun gyda phaned o de a bisgedi!

Felly fe wnes i dorri mwy o ddarnau a mwynhau'r amser yn eu haildrefnu.



Fe allech chi dreulio oriau yn symud y darnau o gwmpas! Fe wnes i ychwanegu ychydig o bensil ar gyfer gwrid ar yr wyneb, ond fe allech chi ychwanegu unrhyw gyfrwng yn unrhyw le. Os ydych chi'n caru eich darn, fframiwch e! Y peth pwysicaf yw eich bod wedi cael hwyl yn edrych ar becynnau bwyd mewn ffordd newydd efallai, yn mwynhau'r broses ac yn cymryd amser i fwynhau pob cam wrth greu eich darn o gelf.



Mae hwn yn brosiect mor rhad i'w drio. Efallai y byddwch chi'n sylweddoli eich bod yn caru collage ac eisiau parhau ag e. Maen nhw'n hwyl i'w gwneud. Mwynhewch.

